TALU GORAMSER I STAFF

O bryd i'w gilydd, mae'n ofynnol i *CYNNAL* gyflawni tasgau ychwanegol o fewn amseroedd cyfyngedig, a phryd hynny bydd raid i'r cwmni ystyried -

1. ail-flaenoriaethu gwaith yr Uned.
2. talu goramser i'r staff am weithio tu allan i oriau gwaith neu dros benwythnos.
3. dirprwyo'r gwaith i gontractwyr allanol.

Mae'r trefniant i dalu goramser i staff fel a ganlyn :

- ni chaniateir goramser onibai bod Pennaeth/Rheolwr yr Uned wedi'i gymeradwyo **ymlaen llaw**, a'i fod ef/hi yn argyhoeddiedig mai talu goramser i'r staff yw'r opsiwn mwya' addas ar gyfer cyflawni'r gwaith

- ni ddylai gweithio goramser fod yn rhan arferol o batrwm gwaith unigolion

- telir goramser i staff sydd ar gyflog hyd at bwynt 40 ar raddfa cyflog NJC, ac fe'i telir yn unol ag Amodau Gwaith Cenedlaethol i staff NJC.

- mewn amgylchiadau penodol, telir y gydnabyddiaeth fel "swm cytunedig" am y gwaith, hy ar raddfa sy'n adlewyrchu'r arbenigedd/sgiliau sydd ei angen ar gyfer cyflawni'r dasg.

- ar gyfer staff sydd ar gyflog uwch na phwynt 34, caniateir y goramser fel amser i ffwrdd/*in lieu.*

- dylid hawlio'r taliadau yn fisol ar ffurflen bwrpasol, sydd i'w hardystio yn ddi-eithriad gan y Pennaeth/Rheolwr yr Uned sy'n cymeradwyo'r goramser.